Vice–Chancellor's Foreword

Our vision is to be one of the world's leading universities with an academic community recognised for its international distinction and impact. We reaffirmed this vision recently following wide consultation and this strategy focuses on the key priorities that will determine our success.

Academic excellence rooted in world-leading research and scholarship is an absolute priority. From this excellence we will continue to demonstrate the impact of our work for the advancement of knowledge, for our students and for our communities.

Our contribution to Wales is substantial - economically, socially and culturally. We are also on the world stage and will, with our international partners, play a crucial role in tackling some of the biggest global issues of today and of the future.

The realisation of this Strategy represents an enormous challenge in the current environment and will need leadership, a shared vision and strong commitment. I am confident though that this Strategy represents a coherent map of action which will help us to transform our vision into reality.

Rhagair yr Is-ganghellor

Y weledigaeth sydd gennym yw bod yn un o'r prifysgolion mwyaf blaenllaw yn y byd a chanddi gymuned academaidd a fydd yn cael ei chydnabod ar sail ei rhagoriaeth a'i heffaith yn rhyngwladol. Ail-gadarnhawyd y weledigaeth hon yn ddiweddar yn sgil ymgynghori eang ac mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol a fydd yn pennu'n llwyddiant.

Mae rhagoriaeth academaidd sydd â'i wreiddiau mewn ymchwil ac ysgolheictod o'r safon orau yn y byd yn flaenoriaeth ddiamod. Ar sail y rhagoriaeth hon byddwn yn parhau i ddangos effaith ein gwaith er mwyn hybu gwybodaeth, er mwyn ein myfyrwyr ac er mwyn ein cymunedau.

Mae'n cyfraniad ni i Gymru yn sylweddol - yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Rydyn ni ar lwyfan y byd hefyd ac fe fyddwn ni, gyda'n partneriaid rhyngwladol, yn chwarae rhan hanfodol i fynd i'r afael â rhai o'r materion byd-eang mwyaf heddiw ac yn y dyfodol.

Bydd gwireddu'r Strategaeth hon yn her aruthrol yn yr amgylchedd presennol a bydd angen arweinyddiaeth, gweledigaeth gyffredin ac ymrwymiad cryf. Rwy'n hyderus serch hynny fod y Strategaeth yn fap cydlynol o weithredoedd a fydd yn ein helpu i droi'n gweledigaeth yn realiti.